



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority

Rhif Cais: NP2/11/684

Cofrestrwyd: 25/10/13  
Math Caniatad: Llawn

Mr. Grenville Ham  
TGVHydro Ltd.  
CRIC  
Beaufort Street  
Crickhowell  
Powys  
NP8 1BN

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990**  
**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012**

Mae'r Awdurdod a enwir uchod, yr awdurdod cynllunio lleol, **TRWY HYN YN CANIATAU'R** datblygiad a fwriedir gennych, sef:

**Cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau o dan y ddaear, Isafon i Afon Nanmor, Clogwyn, Llanfrothen.**

yn unol a'r cynlluniau a'r cais a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar yr amod(au) a nodir isod:

1. Rhaid dechrau'r datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatad cynllunio hwn ddim hwyrach na PHUM mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.
2. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol a manylion y cynlluniau a ddilyswyd ar 25/10/13.
3. Mae'r caniatâd hwn yn para am gyfnod o 60 mlynedd o'r dyddiad sydd yma, neu nes bydd y tyrbin yn peidio â gweithredu am gyfnod di-dor o nid llai na 12 mis, pa un bynnag ddaw gyntaf. Cyn pen 3 mis o'r adeg honno, caiff y coredau, y ty tyrbin a'r strwythurau eraill i gyd ar ben neu uwchlaw'r ddaear eu datgymalu, a chaiff y deunyddiau eu clirio o'r safle a chaiff y safle ei adfer hyd foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol oni bai fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd ysgrifenedig am unrhyw amrywiad.
4. Cyn dechrau unrhyw waith sy'n berthnasol i'r caniatad hwn bydd rhaid i'r ymgeisydd/datblygwr gyflwyno i a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o Ddatganiad Gweithredu Adeiladwaith. Wedyn bydd rhaid i'r cynllun gael ei gwblhau yn llwyr unol a'r datganiad gweithredu adeiladwaith oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
5. Bydd rhaid i'r ymgeisydd/datblygwr gyflogi gwasanaethau Clerc Gwaith Ecolegol cymwys a phrofiadol i oruchwylio ac adolygu'r gwaith a fanylir yn y Datganiad Dull Adeiladu manwl. Bydd

rhaid i'r Clerc Gwaith Ecolegol gael eu gytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar unrhyw waith sy'n berthnasol i'r caniatad hwn.

6. Nid oes unrhyw offer adeiladu na pheiriannau i'w defnyddio tu allan i'r oriau isod:

Dydd Llun i Ddydd Gwener 08.00 - 18.00

Dydd Sadwrn 08.00 - 13.00

Nid oes unrhyw offer adeiladu na pheiriannau i'w defnyddio ar Ddydd Sul, Gwyliau'r Banc na Gwyliau Cyhoeddus (oni gwaith mewn argyfwng).

7. Rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr sicrhau yn ystod oes y datblygiad a ganiateir yma fod unrhyw sŵn a gynhyrchir gan y pwerdy a'r peiriannau cysylltiedig yn cadw at lefel na fydd yn peri cynnydd yn y raddfa sŵn amgylchynol a fesurir yn allanol i'r eiddo sy'n sensitif i sŵn.

8. Os daw unrhyw gwynion i law mewn perthynas â'r lefelau sŵn sy'n dod o'r pwerdy, disgwylir i'r ymgeisydd gynnal asesiad sŵn a thonyddol cyffredinol llawn o'r sŵn a gynhyrchir gan y datblygiad; dylai'r asesiad hwn gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwstig sy'n meddu ar gymwysterau priodol.

9. Os bydd y lefelau sŵn yn uwch na'r lefelau sŵn derbyniol neu os oes elfennau tonyddol yn bresennol sy'n aflonyddu ar unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn, rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr gyflwyno, a chael cytundeb ysgrifenedig, ar gyfer cynllun o fesurau lliniaru cyn pen tri mis o bennu'r tor-rheolaeth. Yn dilyn unrhyw gytundeb, bydd y mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith cyn pen tri mis neu o fewn unrhyw amserlen arall y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno arni yn ysgrifenedig, a chedwir at hynny wedyn drwy gydol oes y datblygiad.

10. Rhaid tynnu a chronni dwr yn llwyr unol a unrhyw 'Trwydded i Dynnu' a 'Trwydded Cronni' a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

11. Cyn dechrau unrhyw waith sy'n berthnasol i'r caniatad hwn bydd rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno i a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol am ddatganiad gweithredu i adfer y tir i'w gyflwr cyn yr adeiladwaith.

12. Bydd rhaid i'r ymgeisydd/datblygwr sicrhau fod yr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n agos at y datblygiad hwn yn cael ei gadw at safon sy'n galluogi rhyddliffiad i gerddwyr.

### **Y rhesymau am ddyfarniad yr Awdurdod i ganiatau y datblygiad yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd eisioes yw:**

1. I gydymffurfio â'r Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990.

2. Er mwyn sicrhau fod y datblygiad yn edrych yn foddhaol, yn unol â Pholisiau 1 ac A o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (wedi'i fabwysiadu).

3. I sicrhau bod y tir yn cael ei glirio a'i adfer yn foddhaol petai'r cyfleuster yn rhoi'r gorau i weithredu.

4, 5. Er mwyn sicrhau fod y datblygiad yn edrych yn foddhaol.

6, 7, 8, 9. I leihau colled mwynderau o'r eiddo cyfagos.

10. Er mwyn sicrhau bod llif y dwr yn y nant yn cael ei gynnal yn foddhaol.

11. Er mwyn adfer y safle yn foddhaol.

12. Er mwyn sicrhau defnydd di-rwystr o rwydwaith yr hawliau tramwy cyhoeddus.

NODYN CYNGHOROL

1. Tynnir sylw'r ymgeisydd/datblygwr at gynnwys y 'Cyfarwyddyd ar gyfer Datblygwyr' ynghlwm gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Penderfynwyd ar y cais drwy ystyried y polisi/au a ganlyn o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 1, 2, 3, 6, A, D.

**\*\* MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU AMGAEEDIG \*\***



CYFARWYDDWR CYNLLUNIO A TREFTADAETH DIWYLLIANNOL

Dyddiad: 03/03/14



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority

---

Application Number: NP2/11/684

Registered: 25/10/13  
Permission Type: Full

Mr. Grenville Ham  
TGVHydro Ltd.  
CRIC  
Beaufort Street  
Crickhowell  
Powys  
NP8 1BN

**Town and Country Planning Act, 1990**

**Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012**

The above named Authority being the local planning authority **HEREBY PERMIT** the development proposed by you, namely:

**Proposed hydro-electric scheme including construction of intake weir, turbine house and installation of underground pipes,  
Tributary to Afon Nanmor, Clogwyn, Llanfrothen.**

In accordance with the plans and application submitted to the Authority and subject to any conditions specified hereunder:

1. The development to which this planning permission relates shall commence not later than the expiration of FIVE years from the date of this permission.
2. Unless agreed in writing with the Local Planning Authority the development hereby permitted shall not be carried out otherwise than in complete accordance with the details of the drawings validated on 25/10/13.
3. This permission inures for a period of 60 years from the date hereof, or until the turbine ceases to operate for a continuous period of not less than 12 months, whichever is sooner. Within 3 months from that time, the weirs, turbine house and all other structures on or above the ground shall be dismantled, the materials removed from the site and the site restored to the satisfaction of the Local Planning Authority unless the Local Planning Authority gives consent for any variation.
4. Prior to any development commencing in pursuant to this permission the applicant/developer shall submit to and have approved in writing by the Local Planning Authority a detailed Construction Method Statement. The scheme shall subsequently be carried out in strict accordance with the agreed construction method statement unless otherwise agreed to in writing by the Local Planning Authority.
5. The applicant/developer shall ensure that a suitably qualified and competent Ecological Clerk of Works (ECoW) is engaged and approved of in writing by the Local Planning Authority prior to any works commencing on site. A summary list of the ECoW's responsibilities shall be

submitted to and agreed in writing by the Local Planning Authority prior to works commencing on site.

6. No construction plant or machinery shall be operated outside the following hours:

Monday to Friday 08.00 - 18.00

Saturday 08.00 - 13.00

No construction plant or machinery shall be operated on Sunday or Bank or Public holidays (except for works of an emergency nature).

7. The applicant/developer shall ensure that throughout the lifetime of the development hereby permitted any noise generated by the power house and associated plant and machinery are of a level as not to cause an increase in the ambient noise level as measured externally to the noise sensitive property.

8. Should any complaints be received with regards noise levels emanating from the power house the applicant will be expected to undertake a full overall noise and tonal assessment of the noise generated by the development to be carried out by a suitably qualified acoustic consultant.

9. Should the levels of noise exceed the accepted noise levels or there are tonal elements present which cause a disturbance to any noise sensitive property the applicant/developer shall submit to and receive written agreement for a scheme of mitigation measures within three months of the breach being identified. Subsequently to any agreement the mitigation shall be implemented within three months or within any alternative timescale as agreed in writing by the Local Planning Authority and thereafter retained throughout the life of the development.

10. The abstraction and impounding of water is to be made in complete accordance with any 'License to Abstract' and 'License to Impound' as issued by Natural Resources Wales.

11. Prior to any work commencing in pursuant to this permission the applicant shall submit to and have approved in writing by the Local Planning Authority a method statement for the restoration of the land post construction.

12. The applicant/developer shall ensure that all the public rights of way in the vicinity of this development are kept to a standard to enable the free flow of pedestrians.

**The reasons for the Authority's decision to grant permission for the development subject to compliance with the conditions herein before specified are:**

1. To comply with the Town and Country Planning Act, 1990.
2. To ensure a satisfactory standard of appearance of the development, in accordance with Policies 1 and A of the adopted Eryri Local Development Plan.
3. To ensure the satisfactory clearance and renovation of the land in the event of the facility ceasing to operate.
- 4, 5. To ensure a satisfactory standard of development.
- 6, 7, 8, 9. To minimise the loss of amenity to neighbouring properties.
10. To ensure that the flow of water within the stream is adequately maintained.
11. To ensure the satisfactory restoration of the site.
12. To ensure the unhindered use of the public right of way network.

ADVISORY NOTE

1. The applicants/developers' attention is drawn to the attached Natural Resources Wales' 'Guidance Notes for Developers'.

The application was determined having regard to the following policy(ies) in the Eryri Local Development Plan 1, 2, 3, 6, A, D.

**\*\* IT IS IMPORTANT THAT YOU READ THE ENCLOSED NOTES \*\***



DIRECTOR OF PLANNING AND CULTURAL HERITAGE

Date: 03/03/14

## **CYNGOR SAFONOL - CYFARWYDDYD AR GYFER DATBLYGWYR**

Dylid sylwi nad yw'r cyfarwyddyd hwn wedi ei gynllunio ar gyfer pob un pwnc. Os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch ei gynnwys neu ynghylch pynciau eraill perthynol i'r datblygiad, dylech gysylltu â CNC ar unwaith.

### **Cyngor Cyffredinol**

1. Dylid cymeryd pob cam rheoli llygredd addas er sicrhau na lygrir yr amgylchedd dyfrol, gan gynnwys dŵr daear a dŵr arwyneb fel ei gilydd. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â CNC.
2. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CNC, neu cofrestru eithriad ar gyfer unrhyw ollyngiad o'r safle i gwrs dŵr, ffos, ac yn y blaen. Fe all fod rhaid wrtho ar gyfer rhai mathau o ollyngiadau i dir, hefyd. Rhaid cael pob caniatâd, neu eithriad CNC angenrheidiol cyn dechrau gwaith ar y safle. Ceir rhagor o wybodaeth ar y linc yma: <http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/132391.aspx>
3. Rhaid i chi atal unrhyw sment neu slwtsh sment o beiriannau cymysgu, neu o ganlyniad i olchi peiriannau neu offer, rhag llifo neu ddiferu i unrhyw gwrs dŵr.
4. Os oes yna storio unrhyw olew, tanwydd neu gemegau ar y safle yn ystod yr adeiladu, dylid lleoli'r tanciau o fewn bwnd ar waelod anhydraidd. Rhaid i'r bwnd fedru cynnwys 10% yn fwy na'r hyn a gedwir ynddo.
5. Rhoddwyd gwybodaeth gynhwysfawr i'r Awdurdod Lleol ei hystyried wrth asesu peryglon o du nwy tirlenwi a halogiad tir. Pan ymddengys fod datblygiad ar hen safle tirlenwi neu o fewn 250m i un, ac yr ymddengys nad oes effaith ar ddyfroedd rheoledig, yna ni wnawn unrhyw sylwadau ychwanegol.
6. Rhaid gwaredu gwastraff y datblygiad mewn ffordd addas: i gyfleuster rheolaeth gwastraff, er enghraifft. Os oes modd, dylid ei ailgylchu. Y mae rhai mathau o wastraff, fel asbestos er enghraifft, yn Gwastraff Peryglus, a rhaid ei yrru at gyfleuster trwyddedig yn unig, sydd â thrwydded derbyn gwastraff o'r fath.
7. Os yw'n fwrriad gennych ddod â gwastraff ar y safle er mwyn ei ddefnyddio (cerrig seilio, e.e.), neu ddefnyddio gwastraff rheoledig at ddibenion adeiladu, yna rhaid i chi gysylltu â CNC ar unwaith (ac ymhell o flaen dod ag unrhyw ddeunydd ar y safle) er mwyn sicrhau bod y trefniadau Trwyddedu Amgylcheddol oll yn eu lle.
8. Os yw gwaith adeiladu neu gloddio yn dod ag unrhyw ddeunydd llygredig i'r amlwg, rhaid i chi roi gwybod i CNC ar unwaith.
9. Gall fod angen caniatâd ffurfiol CNC ar gyfer unrhyw waith (gan gynnwys gwaith dros dro) mewn, oddi tan, dros neu nesaf at gwrs dŵr: a hynny cyn dechrau'r gwaith. Yn unol â pholisi "dim sianelu" CNC, fel arfer ni roddir caniatâd ar gyfer sianelu heblaw at ddibenion mynediad i'r safle.
10. Rhaid gosod a chynnal unrhyw gyfleuster trin/gwaredu carthion preifat yn unol â Safon Brydeinig 6297, a Dogfen Gymeradwyedig H y Rheoliadau Adeiladu 2000. Gall fod manylion ychwanegol ar gael gan Swyddog Rheoli Adeiladu yr awdurdod lleol. (Sylwer: nid ystyrir bod cyfleusterau trin preifat yn addas o safbwynt amgylcheddol ar gyfer ardaloedd lle bo carthffosiaeth gyhoeddus).
11. Dylid ymgynghori â Dŵr Cymru/Welsh Water ynghylch y bwriadau, a gofyn iddynt ddangos fod y rhwydwaith carthffosiaeth a gwaredu carthion sy'n gwasanaethu'r datblygiad yn ddigon i fedru dygymod â'r llif ychwanegol a gynhyrchir yn sgil y datblygiad, heb beri llygredd neu ddirywiad yn y dosbarthiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

12. Os yw'n fwrriad gennych newid unrhyw un o'r manylion yn eich cais cynllunio (y trefniadau draenio, e.e.), dylech gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gan y gall y bydd angen iddynt ailymgyngori â CNC.
13. Argymhellir y dylech ymgynghori ag Adran Peiriannydd yr Awdurdod Lleol er mwyn profi na fyddai unrhyw ddŵr wyneb sy'n draenio o'r safle hwn i gwrs dŵr, ffos neu gwifer (ag eithrio prif afonydd statudol) achosi neu waethygu llifogydd yn y dalgylch hwn. Dylid cynnwys Rhwydweithiau Draenio Trefol Gynaliadwy (RhDTC) yn y cynllun, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
14. Argymhellir y dylech ymgynghori ag Adran Peiriannydd yr Awdurdod Lleol, a all fod â chofnodion / gwybodaeth ychwanegol ynghylch trafferthion llifogydd lleol.

### **Meini Prawf Ychwanegol ynglŷn â Datblygu Amaethyddol**

Lle bo angen, rhaid i'r cyfleusterau gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Biswail ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991, fel y'u newidiwyd ym 1997.

Tan amodau'r Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Biswail ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991, rhaid i'r sawl sydd yn amcanu bod â rheolaeth ar unrhyw safle storio perthnasol rybuddio CNC gan nodi'n benodol fath yr adeilad sydd i'w ddefnyddio a'i leoliad, o leiaf 14 diwrnod cyn y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer cadw neu storio unrhyw sylwedd perthnasol.

Rhaid storio trwyth biswail/silwair o fewn system gaeedig yn unol â "Chod Arfer Amaethyddol Da ar Gyfer Gwarchod Dŵr" yr Adran Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Rhaid storio a gwaredu unrhyw dail a gynhyrchir o ganlyniad i'r broses yn unol â "Chod Arfer Amaethyddol Da ar Gyfer Gwarchod Dŵr" yr Adran Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Ni ddylid storio unrhyw dail o fewn 10m i unrhyw gwrs dŵr, draen tir neu ffos.

Sicrhewch gydymffurfio â Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2008, os gwelwch yn dda..

Rhaid draenio'r datblygiad trwy gyfrwng rhwydwaith draenio dŵr aflan a dŵr wyneb ar wahân, gan gadw pob dŵr toeau ac wyneb glân ar wahân i ddŵr aflan.

#### **Noder: Ynglŷn â PHOB Bwriad Datblygu**

Nid yw rhoi caniatâd cynllunio'n caniatáu gweithgareddau y mae arnynt angen cydsyniad, trwydded neu ganiatâd tan ddeddfwriaeth arall. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau cael pob awdurdodiad perthnasol cyn i'r gwaith gychwyn. Y mae'r gweithgareddau y gall y bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol CNC (neu adolygiad awdurdodiad presennol) ar eu cyfer yn cynnwys:

- Gwaith mewn, o dan, uwchben neu gerllaw cwrs dŵr
- Sianelu / dargyfeirio cwrs dŵr
- Gollwng / allyrru i'r amgylchedd
- Cadw / storio / trosglwyddo gwastraff
- Tynnu dŵr wyneb / dŵr daear
- Stocio pysgod
- Storio cemegolion, olewau neu ddefnyddiau peryglus eraill

Gall trefn ganiatáu CNC gymeryd sawl mis i'w chwblhau, felly gorau po gyntaf y cysylltwch â ni. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cyfrifoldebau CNC ar ein gwefan: [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) / [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

## STANDARD ADVICE - GUIDANCE NOTE FOR DEVELOPERS

*It should be noted that this guidance note has not been designed to cover all issues, and where you have any query regarding its contents or other matters associated with the development you should contact Natural Resources Wales / Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW/CNC) immediately.*

### General Advice

1. All appropriate pollution control measures should be adopted to ensure that the water environment (both groundwater and surface water) is not polluted. If in any doubt contact NRW.
2. The written consent of NRW or registration for exemption by the developer will be required for any discharge e.g. foul drainage to a watercourse/ditch etc, from the site and may also be required for certain categories of discharges to land. All necessary NRW consents, or exemptions must be obtained prior to works progressing on site.
3. You must prevent any discharge or seepage of cement from a mixer and/or cement slurry from e.g. washing out cement mixers and tools, into any watercourse.
4. If any oils tanks, fuels or chemicals are being stored on the site during the construction phase, they should be sited in an impermeable bunded area the capacity of which should exceed that which is stored by 10%.
5. Comprehensive data has been issued to the Local Authority, which will inform their decisions by assessing risks from landfill gas and land contamination. In instances where a development appears to be on/within 250m of an historic landfill and there appears to be no impact to controlled waters then we have no further comment.
6. Waste arising from the development must be disposed of in an appropriate way i.e. to a waste management facility, and where possible it should be re-cycled. Certain wastes, for example asbestos, are classed as Hazardous Wastes and shall only be disposed of to an appropriate facility, licensed to take such wastes.
7. If you intend to import waste onto the site for use as e.g. hardcore or are intending to use controlled waste for construction purposes you must contact NRW immediately (and well in advance of any material being brought onto the site) to ensure that any necessary Environmental Permitting procedures are in place.
8. If during the construction/excavation works any contaminated material is revealed you must contact NRW immediately.
9. Any works (including temporary works) in, under, over or adjacent to any watercourse may require the formal consent of NRW prior to works commencing. In accordance with NRW's "no-culverting" policy, consent for culverting will only normally be granted for site access purposes.
10. Any private sewage treatment / disposal facility must be installed and maintained in accordance with British Standard 6297, and Approved Document H of the Building Regulations 2000 (further details may be available from the local authority Building Control Officer). **(NB Private treatment facilities are not considered environmentally acceptable in publicly sewered areas).**
11. **When connecting to the public sewerage system**, Dwr Cymru/Welsh Water should be consulted on the proposals and be requested to confirm that the sewerage and sewage disposal system serving the development has sufficient capacity to accommodate the additional flows generated as a result of the development. This is to ensure that the development does not cause pollution of the water environment or potential deterioration in the Water Framework Directive classification.

12. If you intend to amend any of the details submitted in your planning application (e.g. the proposed drainage arrangements) you should contact the Local Planning Authority who may be required to reconsult NRW.
13. It is recommended that you consult with the Local Authority's Engineers Department in order to establish that should any surface water drainage from this site be discharged to a watercourse, ditch or culvert (excluding statutory main rivers) that such discharge will not cause or exacerbate any flooding in this catchment. Wherever practicable, Sustainable Urban Drainage Systems (SUDS) should be incorporated into the design.
14. It is recommended that you consult with the Local Authority's Engineers Department, who may hold records/additional information in respect of localised flooding problems.

### **Additional Criteria regarding Agricultural Development**

The facilities must, where required, comply with the Control of Pollution (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) Regulations 1991, as amended 1997.

Under the terms of the Control of Pollution (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oils) Regulations 1991, the person who proposes to have control over any relevant storage installation is required to serve notice on NRW specifying the type of structure to be used and its location at least 14 days before it is to be used for the keeping or storing of any relevant substance.

Slurry/silage liquor must be stored within a sealed system in accordance with the MAFF "Code of Good Agricultural Practice for the Protection of Water".

Any manure arising from the process must be stored and disposed of in accordance with the MAFF "Code of Good Agricultural Practice for the Protection of Water."

No manure should be stored within 10m of any watercourse, land drain or ditch.

The development must be drained by a separate system of foul and surface water drainage, with all clean roof and surface water being kept separate from foul water.

#### **Note: Regarding ALL Development Proposals**

The grant of planning permission does not permit activities that require consent, licence, or permit under other legislation. It is the applicant's responsibility to ensure that all relevant authorisations are obtained before work commences. Activities that may require formal NRW approval (or review of an existing authorisation) include:

- Works in, under, over or near a watercourse
- Culverting / diverting a watercourse
- Discharges / emissions to the environment
- Keeping / storage / transfer of waste
- Abstraction of surface water / groundwater
- Fish stocking
- Storage of chemicals, oils or other hazardous materials

NRW consenting procedures can take several months to complete, and early contact is therefore advised. Further information on NRW's responsibilities can be found on our website: [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) / [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)